



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 967 (Cy. 227)

2021 No. 967 (W. 227)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 10) 2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel)
(Wales) (Amendment) (No. 10)
Regulations 2021

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with those Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply.

Mae rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn atal personau nad ydynt yn esempt rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau hynny o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Regulation 12E of the International Travel Regulations prevents non-exempt persons from entering Wales where they have been in a country or territory listed in Schedule 3A to those Regulations within the last 10 days of arrival.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12E er mwyn caniatáu i fyfyrwyr penodol o dan 18 oed sydd wedi bod yn flaenorol mewn gwlad a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gael mynediad i Gymru. Mae'r personau hynny yn ddarostyngedig i ofynion ynysu penodol.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Canada, Denmarc, y Ffindir, Liechtenstein, Lithwania, y Swistir, ac ynysydd Açores at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Gwlad Thai a Montenegro at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn diweddu'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig. Caiff unigolyn adael ynysiad er mwyn cystadlu neu hyfforddi mewn digwyddiad chwaraeon a bennir yn Atodlen 4, neu er mwyn darparu hyfforddiant neu gymorth arall i berson sy'n cystadlu mewn digwyddiad o'r fath.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Regulation 3 of these Regulations amends regulation 12E so as to allow entry into Wales for certain students under the age of 18 who have previously been in a country listed in Schedule 3A to the International Travel Regulations. Such persons are subject to specific isolation requirements.

Regulation 4 of these Regulations amends Schedule 3 to the International Travel Regulations to add the Azores, Canada, Denmark, Finland, Liechtenstein, Lithuania, and Switzerland to the list of exempt countries and territories.

Regulation 5 of these Regulations amends Schedule 3A to the International Travel Regulations to add Montenegro and Thailand to the list of countries and territories subject to additional measures.

Regulation 6 of these Regulations amends Schedule 4 to the International Travel Regulations to update the list of specified sporting events. An individual is able to leave isolation to compete or train in, or provide coaching or other support to a person competing in a sporting event specified in Schedule 4.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2021 Rhif 967 (Cy. 227)

2021 No. 967 (W. 227)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 10) 2021

The Health Protection
(Coronavirus, International Travel)
(Wales) (Amendment) (No. 10)
Regulations 2021

Gwnaed am 1.30 p.m. ar 27 Awst 2021

Made at 1.30 p.m. on 27 August 2021

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru am 4.30 p.m. ar 27 Awst 2021

Laid before *Senedd*
Cymru at 4.30 p.m. on 27 August 2021

Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 30 Awst 2021

Coming into force at 4.00 a.m. on 30 August
2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

Enwi a dod i rym

Title and coming into force

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 10) Regulations 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 30 Awst 2021.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 30 August 2021.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

2. Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygiadau i reoliad 12E

3.—(1) Mae rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)(e)—

- (a) ym mharagraff (i), yn lle “2020” rhodder “2021”;
- (b) ym mharagraff (ii), yn lle “ysgol fyrddio yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynndi” rhodder “sefydliad addysgol yng Nghymru y bwriedir darparu addysg a llety ar gyfer P ynndo”.

(3) Ym mharagraff (5)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “ystyr “ysgol fyrddio” yw ysgol neu goleg” rhodder “ystyr “sefydliad addysgol” yw ysgol, coleg neu ddarparwr addysg uwch”;
- (b) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—
“(d) mae i “darparwr addysg uwch” yr ystyr a roddir i “higher education provider” yn adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(2).”

Amendments to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020

2. The Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

Amendments to regulation 12E

3.—(1) Regulation 12E (additional measures applicable to persons travelling from a country or territory listed in Schedule 3A) is amended as follows.

(2) In paragraph (2)(e)—

- (a) in paragraph (i), for “2020” substitute “2021”;
- (b) in paragraph (ii), for “a boarding school” substitute “an educational institution”.

(3) In paragraph (5)—

- (a) in sub-paragraph (a), for ““boarding school” means a school or college” substitute ““educational institution” means a school, college or higher education provider”;
- (b) after sub-paragraph (c) insert—
“(d) “higher education provider” has the meaning in section 83(1) of the Higher Education and Research Act 2017(2).”

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208) ac O.S. 2021/926 (Cy. 211).

(2) 2017 p. 29.

(1) S.I. 2020/574 (W. 132), amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/942, S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220), S.I. 2020/1015 (W. 226), S.I. 2020/1042 (W. 231), S.I. 2020/1080 (W. 243), S.I. 2020/1098 (W. 249), S.I. 2020/1133 (W. 258), S.I. 2020/1165 (W. 263), S.I. 2020/1191 (W. 269), S.I. 2020/1223 (W. 277), S.I. 2020/1232 (W. 278), S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1329 (W. 295), S.I. 2020/1362 (W. 301), S.I. 2020/1477 (W. 316), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2020/1602 (W. 332), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/24 (W. 8), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/48 (W. 11), S.I. 2021/50 (W. 12), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/72 (W. 18), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/154 (W. 38), S.I. 2021/305 (W. 78), S.I. 2021/361 (W. 110), S.I. 2021/454 (W. 144), S.I. 2021/500 (W. 149), S.I. 2021/568 (W. 156), S.I. 2021/584 (W. 161), S.I. 2021/646 (W. 166), S.I. 2021/669 (W. 170), S.I. 2021/765 (W. 187), S.I. 2021/826 (W. 193), S.I. 2021/863 (W. 202), S.I. 2021/867 (W. 203), S.I. 2021/915 (W. 208) and S.I. 2021/926 (W. 211).

(2) 2017 c. 29.

Diwygiadau i Atodlen 3

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Canada”
“Denmarc”
“Y Ffindir”
“Liechtenstein”
“Lithwania”
“Y Swistir”
“Ynysoedd Açores”.

Diwygiadau i Atodlen 3A

5. Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Gwlad Thai”
“Montenegro”.

Diwygiad i Atodlen 4

6. Yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig), ar y diwedd mewnosoder—

“Cystadleuaeth y Champions Hockey League Rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd FIH i Ddynion (grŵp Ewropeaidd)”.

Amendments to Schedule 3

4. In Part 1 of Schedule 3 (exempt countries and territories outside the common travel area), at the appropriate places insert—

“The Azores”
“Canada”
“Denmark”
“Finland”
“Liechtenstein”
“Lithuania”
“Switzerland”.

Amendments to Schedule 3A

5. In Schedule 3A (countries and territories subject to additional measures), at the appropriate places insert—

“Montenegro”
“Thailand”.

Amendment to Schedule 4

6. In Schedule 4 (specified sporting events), at the end insert—

“The Champions Hockey League competition FIH World Cup qualifiers for Men (European group)”.

Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 1.30 p.m. ar 27 Awst 2021

© Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers
At 1.30 p.m. on 27 August 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/967>

ISBN 978-0-348-39107-7



9 780348 391077